Taflen Ffeithiau ar Geisiadau Cynllunio

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch ceisiadau cynllunio. Dylid ei darllen gyda'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Y Cyngor yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ei ardal (mewn rhai ardaloedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n gwneud hyn). Mae awdurdodau cynllunio'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a gweithredu ar amrywiol faterion cynllunio. Rhaid iddynt weithio o fewn y gyfraith, canllawiau'r llywodraeth ac o fewn polisi'r awdurdod ei hun. Efallai y bydd yr Ombwdsmon yn gallu eich helpu gyda'ch cwyn yn erbyn awdurdod cynllunio.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Bydd yn gallu edrych i weld a oedd unrhyw beth o'i le gyda'r ffordd yr aeth y Cyngor ati i benderfynu cais ar gyfer datblygiad cyfagos. Gall hyn gynnwys:

- methu rhoi gwybod ichi am gais a allai effeithio arnoch, fel nad oeddech yn gallu gwrthwynebu.
- hysbysu cyrff eraill y dylai fod wedi rhoi gwybod iddynt.
- rhoi gwybod ichi am y cynlluniau diwygiedig.
- rhoi'r rhesymau dros ei benderfyniad i gymeradwyo cais.
- ystyried eich gwrthwynebiadau (nid yw hyn yr un fath â chytuno gyda'ch gwrthwynebiadau).
- rhoi sylw i ystyriaethau cynllunio perthnasol.

Bydd yn gallu edrych ar gwynion ynghylch eich cais personol chi, er enghraifft:

- cyngor cynllunio anghywir / camarweiniol / anghyflawn cyn gwneud cais, a gallwch ddangos bod hyn wedi achosi problemau sylweddol ichi.
- nid oedd gan y Cyngor system yn ei lle i sicrhau bod y cyngor a roddodd wedi'i gofnodi'n briodol.
- methodd y Cyngor ag egluro'n iawn bod ei gyngor yn anffurfiol ac nad oedd yn ymrwymo'r Cyngor i wneud penderfyniad neilltuol yn y dyfodol.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni fydd yn gallu edrych ar:

- penderfyniad cynllunio a wnaed yn briodol ac nid oes unrhyw dystiolaeth o fai gweinyddol.
- cwynion lle mae neu lle oedd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor i'r Arolygiaeth Gynllunio. Bydd hyn ond yn berthnasol lle oedd oedi'n penderfynu cais neu lle gwrthodwyd cais.
- cwyn ynghylch cais hyd nes y gwneir penderfyniad a gall ystyried yr effaith arnoch.

Mae'n annhebygol o edrych ar eich cwyn os yw'n ymwneud â materion preifat rhyngoch chi a'ch cymydog – e.e. anghydfod ynghylch terfynau.

Materion i gadw mewn cof

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd yr Ombwdsmon yn gallu mynd yn groes i'r penderfyniad na dymchwel y datblygiad hyd yn oed os yw'n cael effaith arnoch, ond mi fydd yn ystyried ffyrdd eraill o leihau unrhyw effaith arnoch.

Gwybodaeth bellach

Gall **Cymorth Cynllunio Cymru** roi gwybodaeth ddefnyddiol am faterion cynllunio. Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio **029 2048 5765** neu drwy fynd i'r we yn www.planningaidwales.org.uk

Mae gwybodaeth am gynllunio hefyd ar gael yn http://www.planningportal.gov.uk/wales/public

Bydd gwefan y Cyngor ei hun hefyd efallai'n cynnwys gwybodaeth am rai materion cynllunio.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.

Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombudsman-wales.org.uk

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ